

Cyflwyniad Pellach gan y Cynghorydd Mike Stevens, Cynghorydd Sir Gwynedd

Rhif Adnabod 406

Rhif Gwrthwynebiad 631

11 Awst 2016

**Nid yw Cynllun Adnau 2015 yn gadarn gan bod y fethodoleg a ddefnyddiwyd ym Mhapur Testun 5 Mai 2013 a ddefnyddiwyd fel sail iddo yn wallus. Mae hyn yn glir o'r ffigyrau a ddefnyddiwyd yn y system sgorio sy'n tansgorio Tywyn sydd wedi'i dynodi fel Canolfan Wasanaeth Lleol o gymharu â Blaenau Ffestiniog, Porthmadog a Phwllheli sydd wedi'u dynodi'n Ganolfannau Gwasanaeth Trefol. Nid yw'r casgliadau'n seiliedig ar dystiolaeth – gweler yr enghreifftiau isod.**

Gweler Papur Testun 5 : Datblygu'r Strategaeth Aneddiadau, tudalennau 58, 62, 63, 69, 73, 74

**Gorsafodd Petrol** Ni sgoriodd Tywyn unrhyw bwyntiau er bod yno ddwy orsaf, yn yr un modd â Phorthmadog, ond sgoriodd Porthmadog 2 bwynt.

**Sinema/Theatr** Ni sgoriodd Tywyn unrhyw bwyntiau er bod yno un o'r sinemâu digidol mwyaf cyfoes yng Nghymru. Yn ogystal, ceir perfformiadau byw gan artistiaid o'r West End yn Neuadd Pendre (sydd newydd gael ei hadnewyddu). Sgoriodd Porthmadog 1 pwynt er gwaetha'r ffaith fod y sinema yno wedi cau ac wedi'i ddymchwel erbyn hyn.

**Addoldai** Sgoriodd Tywyn 2 bwynt sydd 1 pwynt yn llai na Phorthmadog a Blaenau Ffestiniog. Yn sgil y ffaith bod 8 Addoldy yn Nhywyn (gweler atodiad "A"), rhaid cwestiynu p'un a oes cynifer â hynny yn fwy yn y trefi hyn i gyfiawnhau'r pwynt ychwanegol.

**Tafarndai** Sgoriodd Tywyn 2 bwynt sydd 1 pwynt yn llai na Phorthmadog, Blaenau Ffestiniog a Phwllheli. Unwaith eto, yn sgil y ffaith bod tri tŷ tafarn yn Nhywyn, ynghyd â 2 glwb cymdeithasol a bar gwin (gweler atodiad "B"), rhaid cwestiynu p'un a oes cynifer â hynny yn fwy yn y trefi hyn i gyfiawnhau'r pwynt ychwanegol.

**Meddygfeydd** Sgoriodd Tywyn 3 phwynt sydd 3 phwynt yn llai na Phorthmadog a Blaenau Ffestiniog. Pan grëwyd y papur, roedd gan Dywyn ganolfan feddygol fawr gyda phedwar meddyg, dwy nyrs *triage* a nifer o glinigau ynddi. Mae'r gwasanaethau hyn bellach wedi'u hail-leoli i'r estyniad 15 gwely newydd yn Ysbyty Tywyn. Unwaith eto, rhaid cwestiynu p'un a oes gan y trefi eraill hyn fwy o wasanaethau meddygol i gyfiawnhau'r 3 phwynt ychwanegol. NODER ar 12 Tachwedd 2015, fe ffoniais yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i holi p'un a oeddynt wedi ymweld â Thywyn i gynnal yr asesiad hwn? Dywedodd eu swyddog nad oeddynt a'u bod yn seilio'u gwybodaeth ar wefan Betsi Cadwaladr?

**Deintydd**                      Sgoriodd Tywyn 3 phwynt sydd 3 phwynt yn llai na Phorthmadog, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog. A ellir cyfiawnhau'r gwahaniaeth hwn mewn gwirionedd?

## Datganiad Crynhoi

Mae'r sgorio'n anghywir ac yn hynod annheg i bobl Tywyn. Wrth wneud ambell newid, mae Tywyn yn sgorio mwy o bwyntiau na'r tair tref gymharus. Nid yw'r casgliadau a wnaed yn seiliedig ar dystiolaeth; yn hytrach fe ymddengys eu bod wedi'u rhag-benderfynu er mwyn cyfiawnhau canolbwyntio datblygiadau a thwf yn y gogledd gan lesteirio de'r sir. Nid oes gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd sydd wedi'i lleoli ym Mangor fawr o empathi â de Gwynedd ac mae'n siŵr gen i nad ydynt wedi trafferthu ymweld â Thywyn na'r cyffiniau yn ystod y broses hon.

Yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2001-2016, cafodd Tywyn ei dynodi'n Ganolfan Leol. Dynodwyd Porthmadog, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog yn Ganolfannau Trefol a nodwyd yn y cynllun datblygu y byddai'r canolfannau hyn yn "ganolbwynt i ddatblygiadau sylweddol". Dros y deng mlynedd a fu, mae Tywyn wedi'i amddifadu o'r un lefel o fuddsoddiad a datblygiad. Er hyn, mae Tywyn wedi bwrw ymlaen ac mae hyd yn oed y Papur Testun 5 gwallus yn dangos bod Tywyn yn gyfartal ac ar y blaen mewn rhai achosion o ran seilwaith a gwasanaethau wrth gymharu â threfi tebyg sydd wedi'u dynodi'n Ganolfannau Trefol. Felly, rhaid gofyn, pe na byddai Tywyn wedi cael ei dal yn ôl a phe bai wedi derbyn yr un lefel o ffocws, datblygiad, buddsoddiad ac wedi cael yr un cyfleoedd dros y deng mlynedd diwethaf, ble fyddai'r dref erbyn hyn?

Yn sgil daearyddiaeth Gwynedd, gellir disgrifio Tywyn fel "prif" dref yr ardal gan fod ei lleoliad yn cynnig ei hun fel lleoliad naturiol i Ganolfan Drefol. Mae'r chwe pentref cyfagos (**gweler map A1**), sef Aberdyfi, Brynchrug, Llanegryn, Abergynolwyn, Rhoslefain a Llwyngwril yn ystyried Tywyn fel eu canolfan am adnoddau megis prif anghenion siopa, ysbyty, doctoriaid, cartrefi gofal, banciau, gwasanaethau cyfreithiol, gwasanaethau ariannol, swyddfa'r post, nwyddau amaethyddol, nwyddau adeiladu, canolfan arddio, ysgol uwchradd a pharc arloesi sy'n ffynnu.

Mae Cynllun Adnau 2015 (tudalen 269) yn nodi bod gan Ganolfannau Gwasanaeth Lleol **rai** cyfleoedd cyflogaeth a manwerthu? Mae cyfleoedd cyflogaeth a manwerthu **gwy**ch yn Nhywyn a dyma'r brif ganolfan gyflogaeth ar gyfer yr ardal. Mae'r Cynllun yn mynd ymlaen i nodi "a chysylltiadau da iawn gyda Chanolfan Wasanaeth Drefol neu'r Ganolfan Isranbarthol, pa un bynnag sydd agosaf". Yr agosaf i Dywyn yw Porthmadog, sydd yn daith gylchol 80 milltir ac ni ellir dweud bod ganddi gysylltiadau da â de'r sir. Ar y pwynt hwn, rhaid cyfeirio at ffordd yr A487 sef y brif ffordd arfordirol sy'n rhedeg rhwng gogledd a de Cymru. Mae'n rhaid i'r ffordd groesi Afon Dyfi ym Machynlleth dros bont a adeiladwyd yn y 17eg Ganrif ar gyfer troliau mulod. Mae hwn yn faen tramgwydd yn y ffordd ac mae'r ffordd yn gorfod cael ei chau yn aml yn sgil llifogydd neu ddifrod a achosir gan lorïau trwm sy'n ceisio croesi'r bont gul. Dengys hyn ymhellach sut mae de Gwynedd wedi'i amddifadu o fuddsoddiad. Pa wlad Ewropeaidd arall fyddai'n caniatáu i'r fath sefyllfa fodoli yn y 21ain Ganrif?

Mae'r Cynllun Adnau (tudalen 155) yn caniatáu am hyd at 55% o ddatblygiad mewn ardaloedd Canolfannau Trefol ond dim ond 20% a ganiateir mewn canolfannau gwasanaeth lleol. Mae prinder tai amlwg yn Nhywyn yn barod ac mae angen tai fforddiadwy yno. Ar hyn o bryd, mae 107 o bobl ar y rhestr dai yn Nhywyn, sydd 50% yn fwy nag ar gyfer Blaenau Ffestiniog.

Ni ellir cyfiawnhau canolbwyntio'r mwyafrif o ddatblygiadau ac adnoddau yng ngogledd Gwynedd. Nid oes cyfiawnhad dros amddifadu pobl Meirionnydd o ddatblygiad a thwf. Rhaid rhoi statws cyfartal i obeithion a dyheadau pobl, teuluoedd ifanc a phlant de Gwynedd a'r rhai yng ngogledd y Sir. Rhaid i ni gynnig dyfodol llewyrchus i'n pobl ifanc a'n teuluoedd fel nad ydynt yn teimlo eu bod mewn ardal sy'n dirywio a'u bod yn cael eu gorfodi i symud i ffwrdd. I'r perwyl hwn, rhaid dynodi

Tywyn, y dref fwyaf, fel Canolfan Drefol fel y gellir canolbwyntio datblygiad, buddsoddiad a thwf yno i sicrhau cynaliadwyedd a hyfywdra hirdymor yr ardal gyfan.

**Dengys y ffeithiau hyn nad yw'r cynllun yn gadarn ac nad ydyw'n gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer datblygiad yn ne Gwynedd am y rhesymau a nodir. Felly, rwyf yn ymbil ar yr Arolygwyr i ail-ddynodi Tywyn yng Nghynllun Adnau 2015 yn Ganolfan Wasanaeth Drefol a bod iddi statws cyfartal â Phorthmadog, Blaenau Ffestiniog a Phyllheli. Bydd hyn yn sicrhau cynllun teg, cyfartal a chymesur ar gyfer holl bobl Gwynedd.**

#### **Atodiad "A"**

Addoldai yn Nhywyn: Sant Cadfan Yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Gatholig Dewi Sant, English Baptist Church, Capel Presbyteraidd Cymru, Capel Methodistaidd Cymru, Capel Bethel, Kingdom Hall Tystion Jehova a Chapel Ysbrydol Tywyn.

#### **Atodiad "B"**

Tafarndai yn Nhywyn: The White Hall, The Tredegar Arms, The Victorian Slipway. Sefydliadau trwyddedig eraill: Tywyn Ex Servicemen Club, Neptune Social Club a Proper Gander Wine Bar. Yn ogystal, mae yno Westy'r Corbett Arms sydd ar gau ar hyn o bryd ond hyderir y bydd yn ailagor unwaith y bydd yn cael ei brynu gan berchnogion newydd. Yn ogystal, mae nifer o fwytai trwyddedig yn y dref.

#### **Map A1 – wedi'i atodi**

Mae hyn yn dangos daearyddiaeth Gwynedd a pha mor anghysbell yw cymunedau'r de o'r canolfannau Isranbarthol a Threfol.

**Nodyn ychwanegol.** Ar 18 Mawrth 2016, cynhaliodd Cyngor Gwynedd gyfarfod arbennig i drafod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gan bod pryder mawr nad oedd y cynllun yn adlewyrchu barn ac argymhellion y Cynghorwyr. Roedd y cynllun yn cael ei farnu o bob ochr i'r siambr gan bob grŵp gwleidyddol. Yn ystod y drafodaeth, dywedodd nifer o aelodau oedd yn aelodau o bwyllgor y CDLI ar y Cyd bod eu barn wedi cael ei anwybyddu'n llwyr. Teimlwyd bod mwyafrif yr argymhellion a'r farn yng Nghynllun Adnau 2015 wedi'u gwneud gan swyddogion cynllunio oedd yn cymryd yr agwedd "ni wŷr orau". Cynigiodd un cynghorydd bleidlais o ddiffyg hyder yn y CDLI ar y Cyd ond dywedodd y swyddog cyfreithiol Iwan Evans nad oedd modd parhau â'r bleidlais am resymau cyfreithiol? Teimlaf y dylai'r arolygwyr fod yn ymwybodol o'r ffeithiau hyn.

Y Cynghorydd Mike Stevens

## MAP A1

Dengys y map yn glir sut mae Cynllun Adnau 2015 yn canolbwyntio'r holl ddatblygiadau a thwf yng ngogledd Gwynedd ar draul cymunedau'r de.

Dengys y map hefyd bwysigrwydd strategol Tywyn i gymunedau a phobl de Gwynedd.

